**Atodiad A: Cosbau wrth gollfarnu a'r dull arfaethedig o ddefnyddio hysbysiadau cosb – Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig ac Unigolion Cyfrifol**

Mae Adran 51 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn darparu bod:
Person sy'n euog o drosedd o dan y Ddeddf neu fel y rhagnodwyd mewn Rheoliadau yn agored:
(a) o dan euogfarn ddiannod (yn y Llys Ynadon, i gael dirwy neu gyfnod o garchar heb fod yn hwy na 6 mis, neu'r ddau
(b) o dan euogfarn ar dditiad (yn Llys y Goron), i gael dirwy neu gyfnod o garchar heb fod yn fwy na 2 flynedd, neu'r ddau.

Yn achos troseddau lle bo system hysbysiadau cosb yn gymwys, mae adran 54 o'r Ddeddf yn cyfyngu cyfanswm y swm sydd i'w dalu o dan hysbysiad cosb i ddwy a hanner gwaith lefel 4 ar y raddfa safonol ar gyfer dirwyon (o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol1982). Lefel 4 ar y raddfa safonol ar hyn o bryd yw £2,500

| **Troseddau darparwyr gwasanaeth o fewn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017** Mae'r rhain yn gymwys i ddarparwyr cartrefi gofal; llety diogel; canolfan breswyl i deuluoedd a gwasanaeth cymorth cartref. | | Cosb wrth gollfarnu neu swm arfaethedig yr hysbysiad cosb | **Troseddau cyfatebol darparwyr gwasanaethau o fewn y Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Mabwysiadau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019 drafft** Mae'r rhain yn gymwys i wasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig yn unig, nid i awdurdodau lleol. | |
|---|---|---|---|---|
| **Rheoliad** | | | **Rheoliad** | |
| **6** | **Gofynion mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgìl digonol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben. | Diannod: Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad: Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau | **5** | **Gofynion mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y gwasanaeth mabwysiadu wedi ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgìl digonol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben. |
| **7(1)** | **Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben. | Diannod: Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad: Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau | **6(1)** | **Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **7(3)** | **Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben**<br>Oni bai bod paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (6) am unrhyw ddiwygiad sydd i gael ei wneud i'r datganiad o ddiben o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn y mae i gymryd effaith. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2.5 x Lefel 4 (£6,250)** | **6(3)** | **Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben**<br>Oni bai bod paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (6) am unrhyw ddiwygiad sydd i'w wneud i'r datganiad o ddiben o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn y mae i gymryd effaith.<br><br>*(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn achosion pan fo'n angenrheidiol diwygio'r datganiad o ddiben gydag effaith ar unwaith.*<br><br>*(6) Y personau y mae rhaid iddynt gael eu hysbysu am unrhyw ddiwygiad i'r datganiad o ddiben yn unol â pharagraff (3) neu (5) yw—*<br>*(a) y rheoleiddiwr gwasanaethau; a*<br>*(b) unigolion;* |
| **7(5)** | **Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben**<br>Os yw paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth, yn ddi-oed, hysbysu'r personau<br>a restrir ym mharagraff (6) am unrhyw ddiwygiad a<br>wneir i'r datganiad o ddiben. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2.5 x Lefel 4 (£6,250)** | **6(5)** | **Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben**<br>Os yw paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth, yn ddi-oed, hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (6) am unrhyw ddiwygiad a wneir i'r datganiad o ddiben. |
| **11(3)** | **Gofynion mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu copïau o'r cyfrifon i Weinidogion Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau i gael cais i wneud hynny. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad: | **13(3)** | **Gofynion mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu copïau o'r cyfrifon i Weinidogion Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau i gael cais i wneud hynny. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb: Lefel 4 (£2,500)** | | |
| **12(1)** | **Gofynion i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau a ganlyn yn eu lle ar gyfer y gwasanaeth—<br>Derbyniadau a chychwyn y gwasanaeth (gweler Rhan 5, rheoliad 14)<br>Diogelu (gweler Rhan 8, rheoliad 27)<br>Cefnogi unigolion i reoli eu harian (gweler Rhan 8, rheoliad 28)<br>Defnyddio rheolaeth neu ataliaeth (gweler Rhan 8, rheoliad 29)<br>Cefnogi a datblygu staff (gweler Rhan 10, rheoliad 36)<br>Disgyblu staff (gweler Rhan 10, rheoliad 39)<br>Rheoli heintiau (gweler Rhan 14, rheoliad 56)<br>Meddyginiaeth (gweler Rhan 14, rheoliad 58)<br>Cwynion (gweler Rhan 15, rheoliad 64)<br>Chwythu'r chwiban (gweler Rhan 15, rheoliad 65) | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb: Lefel 4 (£2,500)** | **32(1)** | **Gofynion i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau a ganlyn yn eu lle ar gyfer y gwasanaeth—<br>cychwyn y gwasanaeth (rheoliad 7);<br>diogelu (rheoliad 33);<br>cwynion (rheoliad 34);<br>chwythu'r chwiban (rheoliad 35);<br>cefnogi a datblygu staff (rheoliad 41);<br>disgyblu staff (rheoliad 43). |
| **12(2)** | **Gofynion i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau**<br>Pan fo'r gwasanaeth yn cynnwys darparu llety i blant, rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisi yn ei le ar atal bwlio, gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiad o fwlio a gweithdrefn sydd i gael ei dilyn pan fydd unrhyw blentyn y darperir llety iddo yn absennol heb ganiatâd (gweler rheoliad | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at | **32(4)** | **Gofynion i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y gwasanaeth mabwysiadu yn cael ei ddarparu yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 27(5)). | 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb: Lefel 4 (£2,500)** | | |
| **14(1)** | **Addasrwydd y gwasanaeth**<br>Ni chaiff y darparwr gwasanaeth ddarparu gofal a chymorth ar gyfer unigolyn oni bai bod y darparwr gwasanaeth wedi penderfynu bod y gwasanaeth yn addas i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn ac i gefnogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau | **7(1)** | **Addasrwydd y gwasanaeth**<br>Ni chaiff y darparwr gwasanaeth ddarparu gofal a chymorth ar gyfer unigolyn oni bai bod y darparwr wedi penderfynu bod y gwasanaeth mabwysiadu yn addas i ddiwallu anghenion yr unigolyn am ofal a chymorth ac i alluogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol yn unol â'r datganiad o ddiben |
| **14(3)** | **Addasrwydd y gwasanaeth**<br>(3) Rhaid i'r penderfyniad o dan baragraff (1) ystyried—<br>(a) cynllun gofal a chymorth yr unigolyn,<br>(b) os nad oes cynllun gofal a chymorth, asesiad y darparwr gwasanaeth o dan baragraff (4),<br>(c) unrhyw asesiadau iechyd neu unrhyw asesiadau perthnasol eraill,<br>(d) safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r unigolyn,<br>(e) unrhyw risgiau i lesiant yr unigolyn,<br>(f) unrhyw risgiau i lesiant unigolion eraill y darperir gofal a chymorth iddynt,<br>(g) unrhyw addasiadau rhesymol y gallai'r darparwr gwasanaeth eu gwneud i alluogi i anghenion gofal a chymorth yr unigolyn gael eu diwallu, a<br>(h) polisi a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaeth ar dderbyniadau a chychwyn y gwasanaeth. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau | **7(3)** | **Addasrwydd y gwasanaeth**<br>Rhaid i'r penderfyniad o dan baragraff (1) ystyried—<br>(a) unrhyw gynllun cyfredol;<br>(b) unrhyw asesiadau iechyd neu unrhyw asesiadau perthnasol eraill;<br>(c) safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r unigolyn;<br>(d) unrhyw risgiau i lesiant yr unigolyn;<br>(e) unrhyw risgiau i lesiant unigolion eraill y darperir gofal a chymorth iddynt;<br>(f) argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol yr unigolyn, ynghyd â'i gyfeiriadedd rhywiol a'i hunaniaeth o ran rhywedd;<br>(g) unrhyw addasiadau rhesymol y gallai'r darparwr gwasanaeth eu gwneud i alluogi i anghenion gofal a chymorth yr unigolyn gael eu diwallu;<br>(h) polisi a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaeth ar gychwyn y gwasanaeth. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **19(1)** | **Gwybodaeth am y gwasanaeth**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth lunio canllaw ysgrifenedig ar y gwasanaeth. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2 x Lefel 4 (£5,000)** | **24(1)** | **Gwybodaeth am y gwasanaeth**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth lunio canllaw ysgrifenedig ar y gwasanaeth. |
| **19(2)** | **Gwybodaeth am y gwasanaeth**<br>Rhaid i'r canllaw—<br>(a) cael ei ddyddio, ei adolygu o leiaf bob blwyddyn a'i ddiweddaru yn ôl yr angen,<br>(b) bod mewn iaith, arddull, cyflwyniad a fformat priodol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth,<br>(c) cael ei roi i bob unigolyn sy'n cael gofal a chymorth,<br>(d) yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, gael ei roi i'r awdurdod lleoli, ac<br>(e) cael ei wneud ar gael i eraill ar gais, oni bai nad yw hyn yn briodol neu y byddai'n anghyson â llesiant unigolyn. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2 x Lefel 4 (£5,000)** | **24(2)** | **Gwybodaeth am y gwasanaeth**<br>Rhaid i'r canllaw—<br>(a) cael ei ddyddio, ei adolygu o leiaf bob blwyddyn a'i ddiweddaru fel y bo angen;<br>(b) bod mewn iaith, arddull, cyflwyniad a fformat priodol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth mabwysiadu;<br>(c) cael ei roi i unrhyw unigolyn sy'n cael gofal a chymorth;<br>(d) cael ei roi ar gael i eraill ar gais, oni bai nad yw hyn yn briodol neu y byddai'n anghyson â llesiant unigolyn. |
| **19(3)** | **Gwybodaeth am y gwasanaeth**<br>Rhaid i'r canllaw gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—<br>(a) gwybodaeth am sut i godi pryder neu wneud cwyn;<br>(b) gwybodaeth am argaeledd gwasanaethau eirioli. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at | **24(3)** | **Gwybodaeth am y gwasanaeth**<br>Rhaid i'r canllaw gynnwys gwybodaeth am—<br>**(a)** sut i godi pryder neu wneud cwyn;<br>**(b)** argaeledd gwasanaethau eirioli. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2 x Lefel 4 (£5,000)** | | |
| **20(1)** | **Cytundeb gwasanaeth**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y rhoddir i bob unigolyn gopi wedi ei lofnodi o unrhyw gytundeb sy'n ymwneud â—<br>(a) y gofal a'r cymorth a ddarperir i'r unigolyn;<br>(b) unrhyw wasanaethau eraill a ddarperir i'r unigolyn. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**Lefel 4 (£2,500)** | **25(1)** | **Cytundeb gwasanaeth**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y rhoddir i bob unigolyn sy'n cael gofal a chymorth gopi wedi ei lofnodi o unrhyw gytundeb sy'n ymwneud â—<br>(a) y gofal a'r cymorth a ddarperir i'r unigolyn;<br>(b) unrhyw wasanaethau eraill a ddarperir i'r unigolyn |
| **21(1)** | **Safonau gofal a chymorth - gofynion cyffredinol**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir gofal a chymorth mewn ffordd sy'n amddiffyn, yn hybu ac yn cynnal diogelwch a llesiant<br>unigolion. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau | **29(1)** | **Safonau gofal a chymorth – gofynion cyffredinol**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir gofal a chymorth mewn ffordd sy'n amddiffyn, yn hybu ac yn cynnal diogelwch a llesiant unigolion. |
| **26** | **Diogelu - gofyniad cyffredinol**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r gwasanaeth mewn ffordd sy'n sicrhau bod unigolion yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau | **23** | **Diogelu - gofyniad cyffredinol**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r gwasanaeth mewn ffordd sy'n sicrhau bod unigolion yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau | | |
| **34(1)** | **Staffio - gofynion cyffredinol**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau ar bob adeg fod nifer digonol o staff sydd â'r cymwysterau, yr hyfforddiant, y sgiliau, y cymhwysedd a'r profiad addas wedi eu defnyddio i weithio yn y gwasanaeth, gan roi sylw—<br>(a) i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth;<br>(b) i anghenion gofal a chymorth yr unigolion;<br>(c) i gefnogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol;<br>(d) i ofynion y rheoliadau yn Rhannau 3 i 15. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau | **39** | **Staffio - gofynion cyffredinol**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau ar bob adeg fod nifer digonol o staff sydd â'r cymwysterau, yr hyfforddiant, y sgiliau, y cymhwysedd a'r profiad addas yn cael eu defnyddio i weithio yn y gwasanaeth mabwysiadu, gan roi sylw—<br>(a) i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth;<br>(b) i anghenion gofal a chymorth unigolion;<br>(c) i'r angen i gefnogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol;<br>(d) i'r angen i ddiogelu a hybu iechyd a lles plant; ac<br>(e) i ofynion y Rheoliadau hyn. |
| **35(1)** | **Addasrwydd staff**<br>Ni chaiff y darparwr gwasanaeth—<br>(a) cyflogi person o dan gontract cyflogaeth i weithio yn y gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny;<br>(b) caniatáu i wirfoddolwr weithio yn y gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny;<br>(c) caniatáu i unrhyw berson arall weithio yn y gwasanaeth mewn swydd y gall, yng nghwrs ei ddyletswyddau, gael cysylltiad rheolaidd ynddi ag unigolion sy'n cael gofal a chymorth neu â phersonau eraill sy'n hyglwyf oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny. | Diannod:<br>Dirwy / <6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / <2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2.5 x Lefel 4 (£6,250)** | **40(1)** | **Addasrwydd staff**<br>Ni chaiff y darparwr gwasanaeth—<br>(a) cyflogi person o dan gontract cyflogaeth i weithio yn y gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny;<br>(b) caniatáu i wirfoddolwr weithio yn y gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny;<br>(c) caniatáu i unrhyw berson arall weithio yn y gwasanaeth mabwysiadu mewn swydd y gall, yng nghwrs ei ddyletswyddau, gael cysylltiad rheolaidd ynddi ag unigolion sy'n cael gofal a chymorth neu â phersonau hyglwyf eraill oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny. |
| **38(1)** | **Gwybodaeth ar gyfer staff**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir gwybodaeth i bob person sy'n gweithio yn y gwasanaeth (gan gynnwys unrhyw berson y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr) am y gwasanaeth a'r ffordd y caiff ei ddarparu. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau | **42(1)** | **Gwybodaeth ar gyfer staff**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir gwybodaeth i bob person sy'n gweithio yn y gwasanaeth mabwysiadu (gan gynnwys unrhyw berson y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr) am y gwasanaeth a'r ffordd y caiff ei ddarparu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2 x Lefel 4 (£5,000)** | | |
| **59(1)** | **Cofnodion**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gadw a chynnal y cofnodion a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 2 mewn cysylltiad â phob man y darperir y gwasanaeth ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2 x Lefel 4 (£5,000)** | **31(1)** | **Cofnodion**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gadw a chynnal y cofnodion a bennir yn Atodlen 3. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **59(3)** | **Cofnodion**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—<br>(a) sicrhau bod cofnodion sy'n ymwneud ag unigolion yn gywir ac yn gyfredol;<br>(b) cadw pob cofnod yn ddiogel;<br>(c) gwneud trefniadau er mwyn i'r cofnodion barhau i gael eu cadw'n ddiogel os bydd y gwasanaeth yn cau;<br>(d) yn achos cofnodion am blentyn sy'n cael ei letya mewn gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, sicrhau bod y cofnodion yn cael eu dosbarthu i'r awdurdod lleoli pan fo'r gwasanaeth yn peidio â chael ei ddarparu mewn cysylltiad â'r plentyn y mae'r cofnodion yn ymwneud ag ef;<br>(e) gwneud y cofnodion ar gael i'r rheoleiddiwr gwasanaethau ar gais;<br>(f) cadw cofnodion sy'n ymwneud ag oedolion am dair blynedd o ddyddiad y cofnod diwethaf;<br>(g) cadw cofnodion sy'n ymwneud â phlant am bymtheng mlynedd o ddyddiad y cofnod diwethaf, oni bai bod y cofnodion yn cael eu dychwelyd i'r awdurdod lleoli yn unol ag isbaragraff (d);<br>(h) sicrhau bod unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth—<br>(i) yn gallu cael mynediad i'w cofnodion; a<br>(ii) yn cael eu gwneud yn ymwybodol eu bod yn gallu cael mynediad i'w cofnodion. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2 x Lefel 4 (£5,000)** | **31(2)** | **Cofnodion**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—<br>(a) sicrhau bod cofnodion yn gywir ac yn gyfredol;<br>(b) cadw pob cofnod yn ddiogel;<br>(c) gwneud trefniadau er mwyn i'r cofnodion barhau i gael eu cadw'n ddiogel os bydd y gwasanaeth yn cau;<br>(d) rhoi'r cofnodion ar gael i'r rheoleiddiwr gwasanaethau ar gais;<br>(e) cadw cofnodion sy'n ymwneud ag oedolion am 15 mlynedd o ddyddiad y cofnod diwethaf;<br>(f) cadw cofnodion sy'n ymwneud â phlant am 75 mlynedd o ddyddiad y cofnod diwethaf, oni bai bod y cofnodion yn cael eu dychwelyd i'r awdurdod lleoli yn unol ag is-baragraff (d);<br>(g) sicrhau bod person sy'n cael gofal a chymorth gan y gwasanaeth—<br>(i) yn gallu cael mynediad i'w gofnodion; a<br>(ii) yn cael ei wneud yn ymwybodol ei fod yn gallu cael mynediad i'w gofnodion. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **60(1)** | **Hysbysiadau**<br>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau am y digwyddiadau a bennir yn Rhannau 1 a 2 o Atodlen 3. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2 x Lefel 4 (£5,000)** | **9(1), (2), (3)** | **Hysbysiadau**<br>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1.<br>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol, neu'r grŵp comisiynu clinigol a Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 1.<br>(3) Yn achos gwasanaeth mabwysiadu a ddarperir gan gymdeithas fabwysiadu, rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu—<br>(a) yr awdurdod lleoli am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 3 o Atodlen 1;<br>(b) yr awdurdod ardal am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 4 o Atodlen 1;<br>(c) y Bwrdd Iechyd Lleol, neu'r grŵp comisiynu clinigol a Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 4 o Atodlen 1. |
| **60(4)** | **Hysbysiadau**<br>Oni nodir fel arall, rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn ddi-oed ac yn ysgrifenedig. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2 x Lefel 4** | **9(5)** | **Hysbysiadau**<br>Oni nodir fel arall, rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn ddi-oed ac yn ysgrifenedig. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **(£5,000)** | | |

| **Troseddau unigolion cyfrifol o fewn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017**<br>Mae’r rhain yn gymwys i ddarparwyr cartrefi gofal; llety diogel; canolfan breswyl i deuluoedd a gwasanaeth cymorth cartref. | | Penalty on conviction or proposed penalty notice amount | **Troseddau cyfatebol unigolion cyfrifol o fewn y Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Mabwysiadau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019 drafft**<br>Mae’r rhain yn gymwys i wasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig yn unig, nid i awdurdodau lleol. | |
|---|---|---|---|---|
| **Rheoliad** | | | **Rheoliad** | |
| **67(1)** | **Dyletswydd i benodi rheolwr**<br>Rhaid i’r unigolyn cyfrifol benodi person i reoli’r gwasanaeth. Ond nid yw’r gofyniad hwn yn gymwys os yw’r amodau ym mharagraff (2) neu (3) yn gymwys.<br><br>(2) Yr amodau yw—<br>(a) bod y darparwr gwasanaeth yn unigolyn;<br>(b) bod y darparwr gwasanaeth yn bwriadu rheoli’r gwasanaeth;<br>(c) bod y darparwr gwasanaeth yn addas i reoli’r gwasanaeth;<br>(d) bod y darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru; ac<br>(e) bod y rheoleiddiwr gwasanaethau yn cytuno i’r darparwr gwasanaeth reoli’r gwasanaeth.<br>(3) Yr amodau yw—<br>(a) bod y darparwr gwasanaeth yn bartneriaeth, yn gorff corfforaethol neu’n gorff anghorfforedig;<br>(b) bod y darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth cartref gofal neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd mewn dim mwy na dau leoliad neu ei fod wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2.5 x Lefel 4 (£6,250)** | **45(1)** | **Dyletswydd i benodi rheolwr**<br>Rhaid i’r unigolyn cyfrifol benodi person i reoli’r gwasanaeth mabwysiadu. Ond nid yw’r gofyniad hwn yn gymwys os yw’r amodau ym mharagraff (2) neu (3) yn gymwys.<br><br>*(2) Pan fo’r darparwr gwasanaeth yn unigolyn, yr amodau yw—*<br>*(a) bod y darparwr gwasanaeth yn unigolyn;*<br>*(b) bod y darparwr gwasanaeth yn bwriadu rheoli’r gwasanaeth;*<br>*(c) bod y darparwr gwasanaeth yn addas i reoli’r gwasanaeth;*<br>*(d) bod y darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru fel rheolwr â Gofal Cymdeithasol Cymru; ac*<br>*(e) bod y rheoleiddiwr gwasanaethau yn cytuno i’r darparwr gwasanaeth reoli’r gwasanaeth.*<br><br>*(3) Pan fo’r darparwr gwasanaeth yn bartneriaeth, yn gorff corfforaethol neu’n gorff anghorfforedig, yr amodau yw—*<br>*(a) bod y darparwr gwasanaeth yn cynnig bod yr unigolyn sydd wedi ei ddynodi fel yr unigolyn cyfrifol am y gwasanaeth i’w* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cymorth cartref mewn perthynas â dim mwy na dwy ardal;<br>(c) bod y darparwr gwasanaeth yn cynnig bod yr unigolyn sydd wedi ei ddynodi'n unigolyn cyfrifol am y gwasanaeth i gael ei benodi i reoli'r gwasanaeth;<br>(d) bod yr unigolyn hwnnw yn addas i reoli'r gwasanaeth;<br>(e) bod yr unigolyn hwnnw wedi ei gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru; ac<br>(f) bod y rheoleiddiwr gwasanaethau yn cytuno i'r unigolyn hwnnw reoli'r gwasanaeth. | | | *benodi i reoli'r gwasanaeth;*<br>*(b) bod yr unigolyn hwnnw yn addas i reoli'r gwasanaeth;*<br>*(c) bod yr unigolyn hwnnw wedi ei gofrestru fel rheolwr â Gofal Cymdeithasol Cymru; a*<br>*(d) bod y rheoleiddiwr gwasanaethau yn cytuno i'r unigolyn hwnnw reoli'r gwasanaeth.* |
| **68(1)** | **Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr**<br>Ni chaiff yr unigolyn cyfrifol benodi person i reoli'r gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau | **46(1)** | **Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr**<br>Ni chaiff yr unigolyn cyfrifol benodi person i reoli'r gwasanaeth mabwysiadu oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny. |
| **71(1)** | **Dyletswydd i adrodd am benodi rheolwr i reoleiddiwr y gweithlu a'r rheoleiddiwr gwasanaethau**<br>Wrth benodi rheolwr yn unol â rheoliad 67(1), rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi hysbysiad i reoleiddiwr y gweithlu a'r rheoleiddiwr gwasanaethau o—<br>(a) enw, dyddiad geni a rhif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru y person a benodir, a<br>(b) y dyddiad y mae'r penodiad i gymryd effaith. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau | **49(1)** | **Dyletswydd i adrodd am benodi rheolwr i Ofal Cymdeithasol Cymru a'r rheoleiddiwr gwasanaethau**<br>Wrth benodi rheolwr yn unol â rheoliad 45(1), rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi hysbysiad i Ofal Cymdeithasol Cymru a'r rheoleiddiwr gwasanaethau—<br>(a) o enw, dyddiad geni a rhif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru y person a benodir, a<br>(b) o'r dyddiad y mae'r penodiad i gymryd effaith. |
| **71(2)** | **Dyletswydd i adrodd am benodi rheolwr i reoleiddiwr y gweithlu a'r rheoleiddiwr gwasanaethau** | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o | **49(2)** | **Dyletswydd i adrodd am benodi rheolwr i Ofal Cymdeithasol Cymru a'r rheoleiddiwr gwasanaethau** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mewn achos pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn a bod y rheoleiddiwr gwasanaethau wedi cytuno i'r darparwr gwasanaeth reoli'r gwasanaeth, rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi hysbysiad I reoleiddiwr y gweithlu o—<br>(a) enw, dyddiad geni a rhif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru y darparwr gwasanaeth, a<br>(b) y dyddiad y mae'r darparwr gwasanaeth i reoli'r gwasanaeth ohono. | garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau | | Mewn achos pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn a bod y rheoleiddiwr gwasanaethau wedi cytuno i'r darparwr gwasanaeth reoli'r gwasanaeth, rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi hysbysiad i Ofal Cymdeithasol Cymru—<br>(a) o enw, dyddiad geni a rhif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru y darparwr gwasanaeth, a<br>(b) o'r dyddiad y mae'r darparwr gwasanaeth i reoli'r gwasanaeth ohono. |
| **73(1)** | **Ymweliadau**<br>Yn achos gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd(**1**), rhaid i'r unigolyn cyfrifol—<br>(a) ymweld â phob man y mae'r unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad ag ef, a<br>(b) cwrdd â staff ac unigolion ym mhob man o'r fath. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau | **51(1)** | **Ymweliadau**<br>Rhaid i'r unigolyn cyfrifol—<br>(a) ymweld â'r fangre y darperir y gwasanaeth mabwysiadu ohoni;<br>(b) cwrdd ag aelodau o staff sydd wedi eu cyflogi i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu o bob man y mae'r unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad ag ef; ac<br>(c) cwrdd ag unigolion y mae gwasanaeth mabwysiadu yn cael ei ddarparu ar eu cyfer o bob man o'r fath |
| **73(3)** | **Ymweliadau**<br>Mae amlder ymweliadau a chyfarfodydd o'r fath i gael ei benderfynu gan yr unigolyn cyfrifol gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ond rhaid iddynt gael eu cynnal o leiaf bob tri mis. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau | **51(2)** | **Ymweliadau**<br>Mae amlder ymweliadau a chyfarfodydd o'r fath i'w benderfynu gan yr unigolyn cyfrifol gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ond rhaid iddynt gael eu cynnal o leiaf bob tri mis. |
| **74(1)** | **Goruchwylio digonolrwydd adnoddau**<br>Rhaid i'r unigolyn cyfrifol adrodd i'r darparwr gwasanaeth am ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau yn Rhannau 3 i 15 o'r Rheoliadau hyn. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad: | **52(1)** | **Goruchwylio digonolrwydd adnoddau**<br>Rhaid i'r unigolyn cyfrifol adrodd i'r darparwr gwasanaeth am ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth mabwysiadu yn unol â gofynion y Rheoliadau hyn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2 x Lefel 4 (£5,000)** | | |
| **74(2)** | **Goruchwylio digonolrwydd adnoddau**<br>Rhaid i adroddiadau o’r fath gael eu gwneud yn chwarterol. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2 x Lefel 4 (£5,000)** | **52(2)** | **Goruchwylio digonolrwydd adnoddau**<br>Rhaid i adroddiadau o’r fath gael eu gwneud yn chwarterol. |
| **75(1)** | **Adroddiadau eraill i’r darparwr gwasanaeth**<br>Rhaid i’r unigolyn cyfrifol, yn ddi-oed, adrodd i’r darparwr gwasanaeth—<br>(a) am unrhyw bryderon ynghylch rheoli neu ddarparu’r gwasanaeth;<br>(b) am unrhyw newidiadau sylweddol i’r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli neu ei ddarparu;<br>(c) am unrhyw bryderon nad yw’r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â’r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2 x Lefel 4 (£5,000)** | **53(1)** | **Adroddiadau eraill i’r darparwr gwasanaeth**<br>Rhaid i’r unigolyn cyfrifol, yn ddi-oed, adrodd i’r darparwr gwasanaeth—<br>(a) am unrhyw bryderon ynghylch rheoli neu ddarparu’r gwasanaeth;<br>(b) am unrhyw newidiadau sylweddol i’r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli neu ei ddarparu;<br>(c) am unrhyw bryderon nad yw’r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â’r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **80(4)** | **Adolygiad o ansawdd y gofal**<br>Ar ôl cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal a’r cymorth yn unol â’r rheoliad hwn, rhaid i’r unigolyn cyfrifol lunio adroddiad i’r darparwr gwasanaeth y mae rhaid iddo gynnwys—<br>(a) asesiad o safon y gofal a’r cymorth a ddarperir, a<br>(b) argymhellion ar gyfer gwella’r gwasanaeth. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2 x Lefel 4 (£5,000)** | **58(4)** | **Adolygiad o ansawdd y gofal**<br>Ar ôl cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal a’r cymorth yn unol â’r rheoliad hwn, rhaid i’r unigolyn cyfrifol lunio adroddiad i’r darparwr gwasanaeth y mae rhaid iddo gynnwys—<br>(a) asesiad o safon y gofal a’r cymorth a ddarperir, a<br>(b) argymhellion ar gyfer gwella’r gwasanaeth. |
| **81(1)** | **Datganiad o gydymffurfedd â’r gofynion o ran safonau gofal a chymorth**<br>Rhaid i’r unigolyn cyfrifol lunio’r datganiad y mae’n ofynnol iddo gael ei gynnwys yn y datganiad blynyddol o dan adran 10(2)(b) o’r Ddeddf, i’r graddau y mae’n ymwneud â’r man neu’r mannau y mae’r unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad ag ef neu â hwy. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2 x Lefel 4 (£5,000)** | **59(1)** | **Datganiad o gydymffurfedd â’r gofynion o ran safonau gofal a chymorth**<br>Rhaid i’r unigolyn cyfrifol lunio’r datganiad y mae’n ofynnol iddo gael ei gynnwys yn y datganiad blynyddol o dan adran 10(2)(b) o’r Ddeddf, i’r graddau y mae’n ymwneud â’r man neu’r mannau y mae’r unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad ag ef neu â hwy. |
| **84(1)** | **Hysbysiadau**<br>Rhaid i’r unigolyn cyfrifol hysbysu’r rheoleiddiwr gwasanaethau am y digwyddiadau a bennir yn Atodlen 4. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at | **62(1)** | **Hysbysiadau**<br>Rhaid i’r unigolyn cyfrifol hysbysu’r rheoleiddiwr gwasanaethau am y digwyddiadau a bennir yn Atodlen 4. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2 x Lefel 4 (£5,000)** | | |
| **84(3)** | **Hysbysiadau**<br>Oni nodir fel arall, rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn ddi-oed ac yn ysgrifenedig. | Diannod:<br>Dirwy / hyd at 6 mis o garchar / y ddau<br><br>Ditiad:<br>Dirwy / hyd at 2fl o garchar / y ddau<br><br>**Hysbysiad Cosb:**<br>**2 x Lefel 4 (£5,000)** | **63(3)** | **Hysbysiadau**<br>Oni nodir fel arall, rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn ddi-oed ac yn ysgrifenedig. |